

Swyddog Gweithredu Rhaglenni, Cymru

Lleoliad:	100% gweithio o adre ar hyn o bryd gyda'r potensial o weithio o adre ac o'r swyddfa yn y dyfodol a phan yn bosib. Trefniadau i'w cytuno ymhellach pan yn addas.
Adran:	Gweithredu Rhaglenni
Oriau:	35 awr yr wythnos
Cyflog:	£22,000 - £25,500 y flwyddyn
Yn adrodd i:	Rheolwr Gweithredu Rhaglenni, Cymru

Ynglŷn ag Into Film

Elusen addysg yw Into Film sy'n rhoi lle creiddiol i ffilm yn natblygiad addysgol, diwylliannol a phersonol plant a phobl ifanc.

Mae dros hanner ysgolion y Deyrnas Unedig yn ymwneud â'n rhaglen o glybiau ffilm, dangosiadau sinema arbennig, ac adnoddau a hyfforddiant i gynorthwyo'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ochr yn ochr â chynnwys cyfoethog ar-lein i gynulleidfaoedd ifanc, mae hyn yn darparu cyfleoedd llawn ysbrydoliaeth i blant a phobl ifanc 5-19 oed i ddysgu am ffilm a chyda ffilm a datblygu angerdd at sinema.

Crynodeb o'r Rôl

Gan adrodd i'r Rheolwr Gweithredu Rhaglenni a chydweithio'n agos â'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni, y tîm Cymorth Cyfrifon a'r tîm Dysgu, mae Swyddogion Gweithredu Rhaglenni'n chwarae rôl allweddol wrth gynnal cyswllt ag ysgolion a sefydliadau ieuencid, a'u cynorthwyo i gyflawni'r gwasanaeth gorau posibl o ddysgu drwy ffilm a chyda ffilm i blant a phobl ifanc. Maent yn gweithio ochr yn ochr â thimau Marchnata a Chyfathrebu a Chymorth Cyfrifon ar raglen lawn Into Film, o recriwtio i eiriolaeth, ac yn cyflawni lefel ragorol o wasanaeth cwsmeriaid. Mae Swyddogion Gweithredu Rhaglenni hefyd yn cydweithio'n agos â'u Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni dynodedig i ddatblygu a chysylltu i mewn i rwydwaith cenedlaethol cryf o sefydliadau gan gynnwys y BFI, FAN a chyrrff eraill ym maes y celfyddydau ac addysg.

Yn sgil natur y rôl, mae'n ofynnol gweithio ar benwythnosau ac oriau gweithio estynedig yn achlysurol, ynghyd â theithio'n rheolaidd yn y Deyrnas Unedig.

Prif Gyfrifoldebau:

- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu sy'n benodol i'r wlad.
- Gweithio gyda Chydlynnydd Gweithredu Rhaglenni dynodedig i sicrhau bod sefydliadau cymwys (fel ysgolion a grwpiau ieuencid) yn weithredol, yn gysylltiedig ac wedi'u hysgogi drwy weithredu a monitro cynlluniau gwobrwyo a chymell a darparu cymorth dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb.
- Gweithio gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i gynnal ymgyrchoedd recriwtio, ymgysylltu a chadw wedi'u targedu er mwyn hyrwyddo rhannau allweddol o ddarpariaeth Into Film, fel dangosiadau, hyfforddiant DPP a phyrth newydd ar-lein e.e. gwasanaeth ffrydio a System Rheoli Dysgu Into Film.
- Cynorthwyo'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni i ddatblygu rhwydwaith rhanbarthol o bartneriaid strategol gan gynnwys oddi mewn i'r sector addysg a chreadigol drwy gynrychioli Into Film mewn cynadleddau, digwyddiadau a gwyliau (wyneb-yn-wyneb neu ar-lein i gyd-fynd a'r sefyllfa bresennol).
- Cynorthwyo'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni i ddatblygu a rheoli cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol gydag addysgwyr ac arweinwyr Into Film, gan weithio gyda chydweithwyr i ehangu'r cyrhaeddiad yn genedlaethol.
- Gweithio gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i gyflawni cyfathrebu wedi'i dargedu a'i awtomeiddio i gynulleidfaoedd penodol yng Nghymru.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gweithredu Rhaglenni a'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni gyda gweithdai creu ffilmiau, sesiynau hyfforddiant DPP i athrawon a chyfarfodydd y Cyngor Ymgynghorol Ieuencid.

- Casglu ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol misol/chwarterol a sicrhau y caiff gweithgarwch a gynhelir gan sefydliadau a chysylltiadau yn y rhanbarth ei fonitro, ei werthuso a'i adrodd, a'i ddefnyddio i gyfarwyddo gweithgarwch ymgysylltu a chadw parhaus.
- Dilyn y datblygiadau diweddaraf yn system addysg Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a bod â dealltwriaeth dda o ddatblygiadau Cymru Greadigol.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol a rheoli swyddfa cyffredinol i helpu'r tîm a'r swyddfa i redeg yn llyfn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; archebu teithio, ymdrin ag archebion prynu ac anfonebau, a threfnu deunydd ysgrifennu.
- Dirprwyo ar ran Cydlynedd neu Reolwr Gweithredu Rhaglenni pan fo angen.

Cyfrifoldebau Cyffredinol:

- Ymrwymiad i ansawdd yn fewnol ac yn ein holl ymwneud â'r cyhoedd, aelodau, athrawon, plant a phobl ifanc, partneriaid, cyllidwyr, cefnogwyr ac ati.
- Cyfrannu at gynllunio hirdymor i sicrhau twf yn unol â galw ac adnoddau.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso gwaith Into Film yn rheolaidd.
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Into Film.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill a gaiff eu nodi gan Into Film.

Manyleb y Person:

Hanfodol:

- Dealltwriaeth dda o ystyr gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn nhermau cefnogi sefydliadau fel ysgolion a grwpiau ieuencid a llwyddiant blaenorol rhagorol o weithredu'r gefnogaeth hon.
- Dealltwriaeth dda o'r farchnad addysg a sut gall athrawon ddefnyddio ffilm (a'r celfyddydau'n ehangach) i gyflawni'u hamcanion dysgu ac addysgu.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig o'r radd flaenaf yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Dealltwriaeth dda o'r BFI, rhwydwaith FAN a sefydliadau rhanbarthol eraill yn maes ffilm / y celfyddydau.
- Gwybodaeth weithio dda o systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, offer mesur ymgyrchoedd, dadansoddi, metrigau a dealltwriaeth.
- Profiad o ddehongli ac adrodd ar ddata a'i ddefnyddio i gyfarwyddo ymarfer parhaus.
- Sgiliau rheoli amser a phrosiect da, y gallu i flaenoriaethu amserlen waith brysur a'r gallu i weithio o bell ac yn annibynno yn ôl y gofyn.
- Dealltwriaeth ragorol o system addysg Cymru a Chwricwlwm i Gymru 2022 a gwybodaeth dda am y sector creadigol sy'n datblygu yng Nghymru.
- Profiad o ddarparu cymorth gweinyddol i dîm bach.
- Y gallu i weithio o adre ac adnoddau technegol er mwyn gallu chwrdd â gofynion y swydd.

Dymunol:

- Profiad o ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd e-bost.
- Yn gyfarwydd â Teams a phecyn Microsoft Office.
- Cariad at ffilm a gwybodaeth am ffilm.

Bydd gofyn i bob cyflogai sy'n gweithio'n rheolaidd â data plant ac aelodau dderbyn a chynnal cliriad manwl y DBS (a/neu wiriad Access NI neu wiriad Disclosure Scotland, yn dibynnu ar leoliad gweithio), ar gost Into Film; mae cyflogaeth yn ddibynnol ar hyn.